## 14 RHAGFYR 1999

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

Cynigion a gyflwynwyd ar 7 Rhagfyr 1999

**PWNC Y DDADL FER**

**Alun Pugh ( Gorllewin Clwyd ) ;**

Cysylltiadau Trafnidiaeth rhwng y Gogledd a'r De **( NDM150VB )**

**Andrew Davies ( Gorllewin Abertawe) ;**

Cynnig bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Gwledig drafft ar gyfer Cymru 2000-2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Rhagfyr 1999, ac yn awdurdodi'r Prif Ysgrifennydd i drefnu bod y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 3 Ionawr 2000, ynghyd ag unrhyw welliannau a fydd, o bosibl, yn ofynnol er mwyn bodloni gofynion technegol y Comisiwn. **( NDM151VB )**

**Andrew Davies ( Gorllewin Abertawe) ;**

Cynnig bod y Cynulliad, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn dirprwyo'i swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 i'r Prif Ysgrifennydd. Cymerir bod swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw un o swyddogaethau'r Cynulliad a gynhwysir mewn unrhyw offeryn sy'n effeithiol o dan y Ddeddf neu mewn perthynas â hi. **( NDM152VB** )

[Mae copi o Ddeddf Safonau Bwyd ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir dod o hyd i'r Ddeddf hefyd ar

http://www.hmso.gov.uk/acts/acts1999/19990028.htm

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 9 Rhagfyr 1999**

**NDM151VB**

**1. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);**

Dileer yr atalnod llawn ac ychwaneger at ddiwedd y cynnig:

, ar yr amod, os bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn gofyn am ddiwygiadau sylweddol i'r dogfennau cyn eu cymeradwyo’n derfynol, y bydd y Prif Ysgrifennydd yn ymgynghori ar y diwygiadau hynny gyda’r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

**2. Mick Bates (Maldwyn);**

Ar ddiwedd y cynnig: "Mae’r Cynulliad yn croesawu yn arbennig y cynnig i sefydlu tim i ddelio’n benodol â phroblemau cefn gwlad Cymru fel rhan o Weithrediaeth y Rhaglen newydd, ac mae’n edrych ymlaen at weld yr holl Gronfeydd Strwythurol yn cael eu gweinyddu mewn ffordd gydlyn mewn ardaloedd gwledig"

**3. Mick Bates (Maldwyn);**

Ychwaneger at ddiwedd y cynnig: "Mae’r Cynulliad yn manteisio ar y cyfle hwn hefyd i gadarnhau o’r newydd ei ymrwymiad i ddileu stres cefn gwlad trwy fynd ati’n egnïol i roi mesurau a blaenoriaethau’r Cynllun Datblygu Cefn Gwlad ar waith"

**4. Mick Bates (Maldwyn);**

Ychwaneger at ddiwedd y cynnig: "Mae’r Cynulliad fodd bynnag yn gresynu bod ei Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi cael ei danseilio gan y penderfyniad i gyhoeddi codi’r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn ychydig cyn roedd y Pwyllgor am gyhoeddi ei gasgliadau ar y mater"